GRŴP RHANDDEILIAD SAFLE TRAWSFYNYDD

TRAWSFYNYDD DECOMISSIONING SITE, GWYNEDD, WALES (MAGNOX LIMITED)

REPORT TO THE SITE STAKEHOLDER GROUP 18 JUNE 2018

FOREWORD

This report is issued to the Site Stakeholder Group (SSG) to provide a summary of the regulatory activities of Natural Resources Wales (NRW) at the Trawsfynydd Decommissioning Nuclear Site.

Accountability for the regulation of nuclear sites in Wales is held by "Natural Resources Wales" on behalf of the Welsh Government. NRW and the Environment Agency (EA) have in place a contractual arrangement which enables NRW to draw upon the resources of the specialist EA Nuclear Regulation Group, to assist in the delivery of on-site inspection work and associated assessments under the Environmental Permitting Regulations 2016 (EPR 2016).

In terms of radioactive substances regulation, the primary role of NRW centres on the generation and disposal of radioactive waste. The environmental permit stipulates a number of conditions and limits within which the site must operate. Please see Annex 1 for further information on our role.



Introduction

This report covers the period since the last Site Stakeholder Group (SSG) meeting, specifically 13 November 2017 – 25 May 2018.

Radioactive substances regulation

We regulate radioactive waste disposals through environmental permits that contain limits and conditions aimed at minimising the volume of wastes produced and protecting the environment.

We check compliance with the permit by making regular inspections. These are recorded on "Radioactive Substances Compliance Assessment Reports" (RASCARs) which are placed on the Public Register.

We also maintain regular contact with the operator, at meetings, by telephone or email, in addition to formal correspondence.

Radioactive discharges

We receive quarterly reports from Trawsfynydd site on their monthly radioactive discharges. These are also placed on the Public Register.

All radioactive discharges from Trawsfynydd remain within the limits set in our radioactive substances permit.

Environmental monitoring

Magnox Ltd is required to carry out routine environmental monitoring under their radioactive substances permit. This involves taking a wide range of environmental samples from locations in the vicinity of the site and analysing them for radioactivity content.

The Environment Agency (on behalf of NRW) also undertakes an independent programme of environmental monitoring across Wales & England. The results are reported in the Radioactivity in Food and the Environment (RIFE) report, which can be found at: http://www.food.gov.uk/science/surveillance/radiosurv/rife/.

The latest RIFE report (covering calendar year 2016) was published in October 2017.

Recent results from both programmes are generally in line with previous periods and show no cause for concern.

Both the operator and ourselves keep the environmental monitoring programme under review. We have been discussing improvements to the current programme, described later in this report.

Summary of regulatory activities since last SSG meeting

Date	Purpose
4-5 Dec 17	• SSG & Routine Site Inspection
6 Dec 17	• Welsh Sites Radioactive Waste Meeting (venue: Wylfa)
15 Jan 18	• Communicating decommissioning plans to stakeholders (incl GRR & PRC possibilities) – workshop organised by NDA, Warrington
17 Jan 18	• Routine meeting with NRW to discuss RSR work at Welsh Sites
23 Jan 18	• Joint NRW / EA telecom with site re: potential sewerage plant improvements and permitting requirements
5-6 Feb 18	• Routine Site Inspection (Env Monitoring Review, Gaseous Sampling frequency, RWMC[1] development)
5-6 Mar 18	• Asset Management Themed Inspection with NRW
14-15 May 18	• Routine Site Inspection (LLW[2], Gaseous Sampling techniques)
23 May 18	• Q'ly TESTG[3] Mtg at Site
25 May 18	• Site Environment Review (SER): review of performance and regulatory activities for FY 18/19 issued
Look ahead	
18-19 Jun 18	• SSG & Routine Site Inspection
5 July	• Welsh Sites Radioactive Waste Meeting (Telecom)

ENFORCEMENT ACTIVITY

None concluded since last SSG. .

Current regulatory issues & good practice

[1] Radioactive Waste Management Case
[2] Low Level Waste
[3] Trawsfynydd End State Tactical Group

- We had issued a Warning Letter in July 2017 re: the misconsignment of pond scabbling waste. Good progress has been made by the Operator, as will be recorded in our May 18 site inspection report.
- We have evaluated (in Feb 18) the draft review of the frequency of the sites gaseous discharge monitoring. In many cases the sampling frequency is reduced, but we concur with site that the proposed approach is demonstrably the "best available technique" (BAT) as required by the permit. Reflecting good practice, site are proposing a staged approach i.e. transitioning from weekly to monthly to quarterly, each stage implemented over a number of months, with time-periods extended if required to ensure the results are representative of actual discharge.
- We undertook an inspection on Asset Management arrangements at Trawsfynydd in April 18. Our permit requires operators apply BAT to keep in good repair the equipment associated with the generation and disposal of radioactive waste. A positive inspection: the Trawsfynydd arrangements for asset management appeared to be satisfactory, with professional and dedicated staff involved. No non-compliances with permit conditions were recorded.
- The operator has been reviewing the environmental monitoring undertaken around the site. The recommendations made broadly equate to a similar programme to that completed currently, with a slight expansion in sampling proposed. The operator is continuing to assess what would constitute the BAT approach.

  The Operator highlighted to us the need to update the "habits survey data" utilised by RIFE and we have been able to influence the RIFE team to undertake a Trawsfynydd "Habits" survey in FY 2018/19.
- We continue to keep under review site staffing baselines (to ensure permit compliance). It is important that teams involved in environmental permit compliance are demonstrably Suitably Qualified Experienced Persons (SQEP) staff and there is no reliance placed on "singletons".
- ***GRR: Guidance for the Release from Regulation of Nuclear Sites***

  The formal GRR trial has been completed, but we continue to work closely with Trawsfynydd site on its development of formal submissions, in conjunction with ONR, NDA as well as Snowdonia National Park Planning.

Non-Radioactive Substances Regulation (NRW)

No significant matters to report.

We are working with the site to discuss its plans for potential improvements to conventional permitted water discharge activities, for example, potential improvements to the sewerage plant.

EPR-RSR Permit Update

We anticipate varying the permit to include the additional conditions associated with the GRR document (scheduled for issue in Summer 2018). The exact timing during FY18/19 for the variation is yet to be finalised.

NON-ROUTINE MATTERS

Events / Incidents / Investigations

- We are concluding our follow-up to the failures of the BTS 602 beta particulate in air samplers. In terms of discharges to the environment, there was no significance, nevertheless the issues identified challenge the site's application of BAT and the adequacy of the modification and procurement processes (all permit requirements). The operator has undertaken considerable remedial steps and we reviewed these in our Feb & May 18 routine site inspection visits.

CONTACT DETAILS

Should you have any queries please do not hesitate to contact:

Julia Frost
Swyddog Rheliad a Cyswllt Cymdeithas
Regulatory and Community Liaison Officer

Cyfoeth Naturiol Cymru, Ffordd Caer, Bwcle, Sir Y Fflint, CH7 3AJ

Natural Resources Wales, Chester Road, Buckley, Flintshire, CH7 3AJ

Ffôn / Tel: 03000 653890

E-bost / Email:
julia.frost@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

or

Richard Clarke,
Rheoleiddiwr Niwcliar / Nuclear Regulator
Environment Agency,

Ghyll Mount, Gillan Way, Penrith, Cumbria, CA11 9BP

Ffôn / Tel: 020 3025 5787

Ffôn symudol / Mobile: 07887 634 371

Email / E-bost:
richardj.clarke@environment-agency.gov.uk

ANNEX 1

THE ROLE OF NATURAL RESOURCES WALES AT NUCLEAR SITES

Operating and cleaning up nuclear sites generates radioactive and non-radioactive wastes.

Our role as the environmental regulator in Wales is to ensure that the impact of those wastes on people and the environment, now and in the future, is as small as it can be.

We also aim to prevent pollution, enhance the environment, and contribute to sustainable development.

We inspect nuclear sites and assess proposals from operators in order to provide assurance that the operator is complying with the limits and conditions of the permits we issue under the Environmental Permitting Regulations, 2016 and other relevant legislation and policy.

We supplement direct regulation with a partnership approach, working with the nuclear operators, the Nuclear Decommissioning Authority (NDA), and with the Environment Agency (EA) who operate in England, the Scottish Environment Protection Agency (SEPA) and the Office for Nuclear Regulation (ONR), to solve problems jointly.

We expect operators to comply fully with all relevant legislative requirements and permits. If this does not happen, we will not hesitate to use our enforcement powers to ensure that action is taken to protect the environment or to secure compliance.

In summary our objectives are to:

- Assess compliance with the limits and conditions of the permits
- Reduce risks to the environment and avoid creating further legacies
- Ensure that integrated waste strategies continue to improve
- Ensure that solid waste is packaged in a form suitable for disposal
- Ensure that infrastructure and assets are maintained to minimise environmental impact
- Monitor and assess organisational change to ensure that environmental performance is maintained
- Ensure that environmental permits are up to date, flexible and fit for purpose and that they drive environmental improvement
- Encourage integrated management of fuel and nuclear materials so as to prevent or minimise the potential environmental impacts
- Ensure land and groundwater contaminated by radioactivity or other pollutants is managed appropriately and protect land and groundwater from further contamination
- Develop guidance on Best Available Techniques (BAT)
- Influence NDA so that they provide appropriate direction to operators to minimise waste and improve environmental outcomes

In terms of Decommissioning on nuclear sites, Natural Resources Wales and the Environment Agency have produced joint guidance on our requirements, which can be found here: https://www.gov.uk/government/publications/the-decommissioning-of-nuclear-facilities

GRŴP RHANDDEILIAID SAFLE TRAWSFYNYDD

SAFLE DATGOMISIYNU TRAWSFYNYDD, GWYNEDD, CYMRU (MAGNOX LIMITED)

ADRODDIAD AR GYFER GRŴP RHANDDEILIAID Y SAFLE 18 MEHEFIN 2018

RHAGAIR

Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyflwyno i Grŵp Rhanddeiliaid y Safle i ddarparu crynodeb o weithgareddau rheoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru ar Safle Datgomisiynu Niwclear Trawsfynydd.

'Cyfoeth Naturiol Cymru' sy'n atebol am reoleiddio safleoedd niwclear yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae trefniant cytundebol rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i dynnu ar adnoddau Grŵp Rheoleiddio Niwclear arbenigol Asiantaeth yr Amgylchedd, er mwyn cynorthwyo wrth gyflawni gwaith archwilio ac asesiadau cysylltiedig ar y safle o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016.

O ran rheoleiddio sylweddau ymbelydrol, prif swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yw canolbwyntio ar gynhyrchu a gwaredu gwastraff ymbelydrol. Mae'r drwydded amgylcheddol yn pennu nifer o amodau a chyfyngiadau y mae'n rhaid i'r safle weithredu oddi mewn iddyn nhw. Gweler Atodiad 1 am fwy o wybodaeth ynglŷn â'n swyddogaeth.



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle, yn benodol 13 Tachwedd 2017 tan 25 Mai 2018.

Rheoleiddio sylweddau ymbelydrol

Rydym yn rheoleiddio gwaredu gwastraff ymbelydrol drwy drwyddedau amgylcheddol sy'n cynnwys cyfyngiadau ac amodau wedi'u hanelu at leihau'r maint o wastraff a gynhyrchwyd ynghyd â gwarchod yr amgylchedd.

Rydym yn asesu cydymffurfiaeth â'r drwydded drwy wneud archwiliadau rheolaidd. Mae'r rhain yn cael eu cofnodi mewn "Adroddiadau Asesu Cydymffurfiaeth â Sylweddau Ymbelydrol" (RASCARs), sy'n cael eu rhoi ar y Gofrestr Gyhoeddus.

Yn ogystal, rydym yn cysylltu yn rheolaidd â'r gweithredwr, mewn cyfarfodydd, dros y ffôn neu drwy e-bost, yn ogystal â gohebu yn ffurfiol.

Gollyngiadau ymbelydrol

Rydym yn derbyn adroddiadau chwarterol gan safle Trawsfynydd ynglŷn â'u gollyngiadau ymbelydrol bob mis. Mae'r rhain hefyd yn cael eu rhoi ar y Gofrestr Gyhoeddus.

Mae'r holl ollyngiadau ymbelydrol o Drawsfynydd yn parhau o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn ein trwydded sylweddau ymbelydrol.

Monitro amgylcheddol

Mae'n ofynnol i Magnox Ltd wneud gwaith monitro amgylcheddol rheolaidd o dan ei drwydded sylweddau ymbelydrol. Mae hyn yn cynnwys cymryd amrediad eang o samplau amgylcheddol o leoliadau yng nghyffiniau'r safle a'u dadansoddi nhw am gynnwys ymbelydrol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd (ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru) yn cynnal rhaglen fonitro amgylcheddol annibynnol hefyd ledled Cymru a Lloegr. Mae'r canlyniadau yn cael eu hadrodd yn yr adroddiad Ymbelydredd mewn Bwyd a'r Amgylchedd (RIFE), y gellir ei weld yn: http://www.food.gov.uk/cy/science/surveillance/radiosurv/rife/welsh/.

Cyhoeddwyd adroddiad diwethaf RIFE (sy'n cynnwys y flwyddyn 2016) ym mis Hydref 2017.

Mae'r canlyniadau diweddar ar gyfer y ddwy raglen yn unol â chyfnodau blaenorol ar y cyfan, ac nid ydyn nhw'n dangos unrhyw achos i bryderu.

Mae'r gweithredwr a ni ein hunain yn adolygu'r rhaglen fonitro amgylcheddol yn barhaus. Rydym wedi bod yn trafod gwelliannau i'r rhaglen bresennol, sydd wedi'u disgrifio ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Crynodeb o'n gweithgareddau rheoleiddiol ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle

Dyddiad	Diben
4 – 5 Rhagfyr 2017	• Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ac archwiliad rheolaidd o'r safle
6 Rhagfyr 2017	• Cyfarfod Gwastraff Ymbelydrol Safleoedd Cymru (lleoliad: Wylfa)
15 Ionawr 2018	• Cyflwyno cynlluniau datgomisiynu i randdeiliaid (gan gynnwys posibiliadau o ran Canllawiau ar Ryddhau Safleoedd Niwclear rhag Cael eu Rheoleiddio [GRR] a'r Comisiwn Adolygu Perfformiad [PRC]) – gweithdy wedi'i drefnu gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, Warrington
17 Ionawr 2018	• Cyfarfod rheolaidd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod gwaith rheoleiddio sylweddau ymbelydrol ar safleoedd Cymru
23 Ionawr 2018	• Telathrebu ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd gyda'r safle parthed gwelliannau posib i safleoedd carthffosiaeth a gofynion trwyddedu
5 – 6 Chwefror 2018	• Archwiliad rheolaidd o'r safle (adolygiad monitro'r amgylchedd, amlder samplu [1]nwyol, datblygiad achosion rheoli gwastraff ymbelydrol)
5 – 6 Mawrth 2018	• Archwiliad thematig ar reoli asedau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru

14 – 15 Mai 2018	• Archwiliad rheolaidd o'r safle[2] (gwastraff lefel isel, technegau samplu nwyol)
23 Mai 2018	• Cyfarfod TESTG[3] ar y safle i sicrhau ansawdd
25 Mai 2018	• Adolygiad Amgylcheddol ar y Safle: adolygiad o berfformiad a gweithgareddau rheoleiddio ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19
Edrych i'r dyfodol	
18 – 19 Mehefin 2018	• Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ac archwiliad rheolaidd o'r safle
5 Gorffennaf	• Cyfarfod Gwastraff Ymbelydrol Safleoedd Cymru (telathrebu)

CAMAU GORFODI

Dim wedi'u cwblhau ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle.

Materion rheoleiddiol ac ymarfer da cyfredol

- Gwnaethom gyflwyno llythyr rhybuddio ym mis Gorffennaf 2017 parthed cludo gwastraff brasnaddu pyllau yn anghywir. Mae'r gweithredwr wedi gwneud cynnydd da, a fydd yn cael ei gofnodi yn ein hadroddiad arolygu safle ar gyfer mis Mai 2018.
- Rydym wedi gwerthuso (ym mis Chwefror 2018) adolygiad drafft o amlder y gwaith i fonitro'r nwyon sy'n cael eu rhyddhau ar y safle. Mewn sawl achos, mae amlder y gwaith samplu wedi cael ei leihau, ond rydym yn cytuno gyda'r safle y gellir dangos mai'r ymagwedd arfaethedig yw'r 'dechneg orau sydd ar gael' yn ôl gofyniad y drwydded. Gan adlewyrchu arfer da, mae'r safle'n cynnig ymagwedd fesul cam, h.y. pontio o wythnosol i fisol i chwarterol, gyda phob cam yn cael ei roi ar waith dros nifer o fisoedd ac amserlenni'n cael eu hehangu os oes angen i sicrhau bod y canlyniadau'n cynrychioli'r gollyngiad go iawn.
- Gwnaethom ymgymryd ag arolygiad o drefniadau rheoli asedau yn Nhrawsfynydd ym mis Ebrill 2018. Mae ein trwydded yn gofyn i weithredwyr ddefnyddio'r technegau gorau sydd ar gael i gadw'r cyfarpar sy'n gysylltiedig â chreu a gwaredu gwastraff ymbelydrol mewn cyflwr da. Arolygiad cadarnhaol: yn ôl pob golwg, roedd trefniadau Trawsfynydd ar gyfer rheoli asedau'n foddhaol, gyda staff proffesiynol ac ymroddedig yn rhan ohonynt. Ni chofnodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio ag amodau'r drwydded.
- Mae'r gweithredwr wedi bod yn adolygu'r monitro amgylcheddol yr ymgymerwyd ag ef o amgylch y safle. Mae'r argymhellion a wnaed yn cyfateb yn fras i raglen debyg a gwblhawyd yn ddiweddar, gydag ehangiad bach yn y samplu arfaethedig. Mae'r gweithredwr yn parhau i asesu'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried fel yr ymagwedd techneg orau sydd ar gael.

  Tynnodd y gweithredwr ein sylw at yr angen i ddiweddaru'r 'data arolwg arferion' a ddefnyddir gan RIFE ac rydym wedi gallu dylanwadu ar y tîm RIFE i ymgymryd ag arolwg 'arferion' Trawsfynydd ym mlwyddyn ariannol 2018/19.
- Rydym yn parhau i adolygu llinellau sylfaen ar gyfer staffio ar y safle (i sicrhau cydymffurfiaeth â thrwyddedau). Mae'n bwysig fod timau sy'n rhan o waith i sicrhau cydymffurfiaeth â thrwyddedau amgylcheddol yn staff y gellir dangos eu bod yn bobl brofiadol â chymwysterau addas ac nid oes unrhyw ddibyniaeth ar unigolion penodol.
- ***Canllawiau ar Ryddhau Safleoedd Niwclear rhag Cael eu Rheoleiddio***

  Mae'r treial ffurfiol o'r Canllawiau ar Ryddhau Safleoedd Niwclear rhag Cael eu Rheoleiddio wedi'i gwblhau, ond rydym yn parhau i weithio'n agos gyda safle Trawsfynydd wrth iddo ddatblygu cyflwyniadau ffurfiol, ar y cyd â'r Swyddfa dros Reoli Niwclear a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, yn ogystal ag adran gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.

Rheoleiddio sylweddau nad ydynt yn ymbelydrol (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Dim unrhyw faterion arwyddocaol i'w nodi.

Rydym yn gweithio gyda'r safle i drafod ei gynlluniau ar gyfer gwelliannau posib i weithgareddau rhyddhau dŵr confensiynol

[3] Trawsfynydd End State Tactical Group

sy’n drwyddedig – er enghraifft, gwelliannau posib i'w beirianwaith carthffosiaeth.

Diweddaru Trwydded Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol

Rydym yn rhagweld amrywio'r drwydded i gynnwys yr amodau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dogfen y Canllawiau ar Ryddhau Safleoedd Niwclear rhag Cael eu Rheoleiddio (wedi'i hamserlennu i'w chyhoeddi yn haf 2018). Nid yw'r union amseriad yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 ar gyfer yr amrywiad wedi'i benderfynu'n derfynol hyd yn hyn.

MATERION NAD YDYNT YN RHEOLAIDD

Digwyddiadau / ymchwiliadau

- Rydym yn cwblhau ein gwaith dilynol ar fethiannau’r samplwyr gronynnau beta BTS 602 mewn aer. O ran gollyngiadau i'r amgylchedd, prin oedd yr arwyddocâd; fodd bynnag, mae’r materion a nodwyd yn herio cais techneg orau sydd ar gael y safle a digonolrwydd y prosesau addasu a chaffael (holl ofynion y drwydded). Mae'r gweithredwr wedi ymgymryd â chamau adferol sylweddol a gwnaethom adolygu'r rhain yn ein hymweliadau arolygu rheolaidd â’r safle ym mis Chwefror a mis Mai 2018.

MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â:

Julia Frost
Swyddog Rheoleiddiol a Chyswllt Cymdeithasol / Regulatory and Community Liaison Officer

Cyfoeth Naturiol Cymru, Ffordd Caer, Bwcle, Sir y Fflint CH7 3AJ

Natural Resources Wales, Chester Road, Buckley, Flintshire CH7 3AJ

Ffôn / Tel: 03000 653890

E-bost/Email:

julia.frost@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

neu

Richard Clarke
Rheoleiddiwr Niwclear / Nuclear Regulator
Asiantaeth yr Amgylchedd

Ghyll Mount, Gillan Way, Penrith, Cumbria CA11 9BP

Ffôn / Tel: 020 3025 5787

Ffôn symudol / Mobile: 07887 634 371

E-bost/Email:

richardj.clarke@environment-agency.gov.uk

ATODIAD 1

SWYDDOGAETH CYFOETH NATURIOL CYMRU AR SAFLEOEDD NIWCLEAR

Mae gweithredu a glanhau safleoedd niwclear yn cynhyrchu gwastraff ymbelydrol ac anymbelydrol.

Ein swyddogaeth ni fel y rheoleiddiwr amgylcheddol yng Nghymru yw sicrhau bod effaith y gwastraffau hynny ar bobl a'r amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol, mor fychan ag y gall fod.

Rydym hefyd yn anelu at atal llygredd, gwella'r amgylchedd, a chyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy.

Rydym yn archwilio safleoedd niwclear ac yn asesu cynigion gan weithredwyr er mwyn darparu sicrwydd fod y gweithredwr yn cydymffurfio â chyfyngiadau ac amodau'r trwyddedau yr ydym ni'n eu rhoi o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 a deddfwriaeth a pholisi perthnasol arall.

Rydym yn ychwanegu at ein gwaith rheoleiddio uniongyrchol drwy ddull partneriaeth, gan weithio gyda gweithredwyr niwclear, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, Asiantaeth yr Amgylchedd (sy'n gweithredu yn Lloegr), Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban a'r Swyddfa dros Reoli Niwclear er mwyn datrys problemau ar y cyd.

Rydym yn disgwyl i weithredwyr gydymffurfio'n llwyr â holl ofynion deddfwriaethol perthnasol ac unrhyw drwyddedau. Os na fydd hyn yn digwydd, ni fyddwn yn oedi cyn defnyddio ein pwerau gorfodi er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd er mwyn gwarchod yr amgylchedd neu i sicrhau cydymffurfiaeth.

I grynhoi, ein hamcanion yw:

- Asesu cydymffurfiaeth â chyfyngiadau ac amodau'r trwyddedau
- Lleihau'r risgiau i'r amgylchedd ac osgoi creu etifeddiaethau pellach
- Sicrhau bod strategaethau gwastraff integredig yn parhau i wella
- Sicrhau bod gwastraff solid yn cael ei becynnu mewn ffurf briodol ar gyfer ei waredu
- Sicrhau bod y seilwaith a'r asedau yn cael eu cynnal a'u cadw i leihau'r effaith ar yr amgylchedd
- Monitro ac asesu newid sefydliadol er mwyn sicrhau bod perfformiad amgylcheddol yn cael ei gynnal
- Sicrhau bod trwyddedau amgylcheddol yn gyfredol, yn hyblyg ac yn addas i'r diben a'u bod yn sbarduno gwellhad amgylcheddol
- Annog dulliau integredig o reoli tanwydd a deunyddiau niwclear er mwyn atal neu leihau'r effeithiau amgylcheddol posibl
- Sicrhau bod tir a dŵr daear sydd wedi'u difwyno gan ymbelydredd neu lygryddion eraill yn cael eu rheoli'n briodol a sicrhau bod tir a dŵr daear yn cael eu gwarchod rhag difwyno pellach
- Datblygu canllawiau ynghylch y technegau gorau sydd ar gael
- Dylanwadu ar yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear fel ei fod yn darparu cyfeiriad priodol ar gyfer gweithredwyr ynghylch sut i leihau gwastraff a gwella canlyniadau amgylcheddol

O ran datgomisiynu ar safleoedd niwclear, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynhyrchu canllawiau ar y cyd ynglŷn â'n gofynion a gellir eu gweld yma: https://www.gov.uk/government/publications/the-decommissioning-of-nuclear-facilities